

Cofion

Parhawn i gofio am y teuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn eu bod yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion at Mairwen H. Morris (Nantglyn) fu'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ddechrau'r flwyddyn. Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan iddi hi ac eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy i ofal Duw, gan ofyn iddo yn Ei holl ddaioni roi nerth a chysur iddyn nhw a'u teuluoedd yn eu hangen.

Cyrsiau Coleg y Bala

- ⇒ **ADUNIAD: 10 - 12 Chwefror 2023.** Penwythnos i bobl ifanc 15+ a Myfyrwyr . Cewch ddigon o gemau ac amser da yn archwilio'r Beibl gyda'ch gilydd. Y gost yw £65 sy'n cynnwys y digwyddiad, bwyd, gweithgareddau a llety.
- ⇒ **CHWALFA CHWFROR: 20 - 21 Chwefror 2023.** Deuddydd i blant cynradd oed 8-11 i ddysgu am Iesu, yn llawn gemau gwirion, crefft, chwaraeon, canu a ymlacio yn y 'gaming room'. Y gost yw £42 sy'n cynnwys yr holl weithgareddau, bwyd a'r llety.
- ⇒ **CWRS IEUENCTID: 24 - 26 Chwefror 2023.** Penwythnos i bobl ifanc, blynyddoedd 7-10 yn llawn gemau newydd gwirion, bydd noson 'take away', crefft, amser i ymlacio yn y 'gaming room', amser i ddal fyny hefo ffrindiau hen a newydd, a bydd trip i 'Surf Snowdonia' yn Nolgarrog i'r 'Ninj Assault Course & Extreme Slides'. Trwy gydol y penwythnos fe fydd sesiynau byr i edrych ar y Beibl gyda'ch gilydd mewn ffordd hawdd i ddeall ac addas i'ch oedran. Bydd y penwythnos yn cychwyn am 6:00 ar y nos Wener ac yn gorffen am 11:30 ar y bore dydd Sul. Cost y cwrs yw £69 sy'n cynnwys pob dim.

Medrwc archebu lle ar gyfer y cyrsiau uchod ar y wefan:

www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg neu trwy ffonio 01678 520565.

(Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynychu.)

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn Ionawr 25th, os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 15 Ionawr 2023

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Mae'n debyg bod nifer ohonoch bellach wedi clywed y newyddion fy mod wedi derbyn galwad i fod yn weinidog ar Gapel y Ffynnon, Bangor o fis Mai ymlaen. Byddaf hefyd yn cael cyfle hefyd i gydlynu Rhwydwaith Daniel Rowland sy'n gynllun hyfforddiant newydd ar y cyd â Choleg Diwinyddol Union, Pen-y-bont ar Ogwr. Fel y gallwch ddychmygu nid oedd yn benderfyniad hawdd i'w wneud, ond wedi cyfnod hir o weddio rydym yn barod i ddibynnu ar arweiniad Duw i ni fel teulu, fel y byddwn yn ymddiried yn Ei ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol i Fro Aled hefyd. Diolch i chi i gyd am eich gweddiau a'ch cynhesrwydd tuag atom fel teulu, ac am eich holl gefnogaeth dros y blynyddoedd. Nid oes angen dweud na fyddwch fyth ymhell o'n gweddiau.

Yn aml gall sefyllfaoedd annisgwyl ein helpu i sylweddoli beth yr ydym yn dibynnu arnynt, a chawsom brofiad o hyn yn Llansannan wythnos cyn y Nadolig. Torrodd y cysylltiad trydan i'n rhan ni o'r pentref rhwng 3 a 9 yr hwyr, a bu'r oriau hynny o dywyllwch yn ddiddorol a dweud y lleiaf! Rhyfeddais mor frawychus o dywyll oedd Ffordd Gogor heb olau stryd, a bu'n dipyn o gur pen meddwl beth oedd yn bosib hefo llond llaw yn unig o ganhwylau, a llond tŷ o declynnau amhosib eu defnyddio! Yn ystod y cyfnod heb drydan roeddwn yn gweld ei angen yn enfawr, ond wedi i'r cysylltiad gael ei adfer dychwelais i fywyd arferol heb feddwl rhyw lawer am y peth.

Ac mae yna berygl y gallwn ymddwyn mewn ffordd debyg yn ein perthynas â'r Arglwydd. Gallwn fod yn eiddgar yn gweddio ac yn moli am gyfnodau, cyn tawelu a chilio wrth i fywyd 'normal' ddychwelyd. Ond yn wahanol i gyflenwad trydan, ni fydd yr Arglwydd fyth yn diflannu'n ddirybudd, oherwydd 'nid yw Ceidwad Israel yn cysgu nac yn huno' (Salm 121:4). Ac i'r gwrthwyneb i gwmnïau sy'n elwa wrth gyflenwi egni i'r rhai sy'n talu'n ddrud amdano, mae'r Arglwydd Iesu yn darparu'r hyn sydd ei angen arnom fwyaf, ac wedi talu'r pris yn llawn ar y Groes. 'Oherwydd y mae Crist eisoes, yn yr amser priodol, a ninnau'n ddiymadferth, wedi marw dros yr annuwiol.' (Rhufeiniaid 5:6)

Yn y pen draw, nid oes gan y cwmni sy'n dod â thrydan i'ch tŷ lawer o ddiddordeb mewn perthynas bersonol. Os yw'r ymwneud masnachol rhyngoch yn gweithio heb ormod o gyfathrebu, gorau oll iddynt hwy! Ond nid felly y mae rhwng yr Arglwydd Dduw a ni. Trwy'r Arglwydd Iesu mae wedi'n ceisio er gwaethaf ein crwydro, a thrwy'r Efengyl mae'n ein galw ni oll ato heddiw i berthynas dragwyddol o ymddiried ynddo a mwynhau ei gariad a'i gwmmi.

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Ionawr 15^{fed}

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac yn **Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llanefydd** am 9:30 ac yn **Henllan** am 11:00 o dan arweiniad Rhys Dafis. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10:00.
- **Oedfa i'r Daith (Saron a Nantglyn) yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones.
- **Oedfa'r Fro yng Nghefn Meiriadog** am 6:00 yr hwyr gydag Alun Jones yn arwain a Rhodri yn pregethu.

Dydd Llun, Ionawr 16^{eg}

- **Cymdeithas Llansannan** yn cyfarfod yn y Ffestri am 7:30 yr hwyr pryd y ceir noson yng nghwmni Rhys a Sheila Dafis: "Trysorau'r Ddaear". Croeso i bawb.

Dydd Mawrth, Ionawr 17^{eg}

- **Cinio Jangl** yn Ffestri Llansannan am 12:00.
- **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid Gofalaeth Bro Aled** yn Llansannan am 7.30 yr hwyr.

Dydd Mercher, Ionawr 18^{fed}

- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Caerwys am 6:30 yr hwyr. Yn ystod y cyfarfod, bydd Rhodri'n trosglwyddo'r llywyddiaeth i Mr Meirick Lloyd Davies (Cefn Meiriadog).

Dydd Iau, Ionawr 19^{eg}

- **Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn Ffestri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala. Os nad ydych wedi cofrestru yn barod, rhowch eich enwau i Gwenno (07833 138515), os gwelwch yn dda.

Dydd Sul, Ionawr 22^{ain}

- **Cyfarfod Gweddi yn Llansannan** am 10:00 ac yng **Nghefn Meiriadog** am 10:30. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r gwasanaeth yn Llansannan ac Ysgol Sul yr oedolion yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac yn **Groes** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10:15.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Mawrth, Ionawr 24^{ain}

- **Cinio Jangl** yn Ffestri Llansannan am 12:00.

Dydd Iau, Ionawr 26^{ain}

- **Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn Ffestri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala. Os nad ydych wedi cofrestru yn barod, rhowch eich enwau i Gwenno (07833 138515), os gwelwch yn dda.

Dydd Sul, Ionawr 29^{ain}

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac yn **Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Gerallt Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac yn **Llanefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10:30 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **Oedfa Gymun yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri. Yn ystod yr oedfa yn Nantglyn, bydd Leah Davies yn cael ei derbyn yn aelod cyflawn o'r eglwys.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536